HM Government

Am wybod mwy am eich hawliau yn y gweithle?

Mae gennych gyfaill pwerus

Yma cewch wybod am eich hawliau o ran:

- **yr isafswm cyflog cenedlaethol**
- **oriau gwaith**
- **gweithio i asiantaeth**
- **gweithio mewn amaeth**
- **gweithio i gangfeistri**

Mae'r daflen hon yn nodi rhai hawliau cyflogaeth i bawb sy'n gweithio yn y DU. Os nad yw'ch cyflogwr yn dilyn y rheolau hyn, mae'n torri'r gyfraith.

Mae llinell gymorth Tâl a Gwaith ar gael yn awr i chi allu gwneud galwad i gael gwybod mwy am yr hawliau hyn. Gellwch gael cyngor a chymorth ynglŷn â'r camau i'w cymryd. Gall y llinell gymorth eich helpu i gael yr hyn sy'n ddyledus i chi.

Yr un yw'r rheolau ar dâl ac oriau gwaith i bob gweithiwr (gweler tudalennau 3 a 4). Hefyd mae rheolau arbennig ar gyfer rhai mathau o waith. Mae eglurhad ar y rheolau arbennig hyn yng ngweddill y daflen.

Hefyd rhaid i'ch cyflogwr roi hawliau cyflogaeth eraill i chi, megis gwyliau gyda thâl ac egwyl seibiant, ac edrych ar ôl eich iechyd a'ch diogelwch yn y gwaith. Os yw'r materion hyn neu hawliau cyflogaeth eraill sydd heb eu cynnwys yma yn peri pryder i chi, rhowch alwad i Acas am gyngor ar **08457 47 47 47,** neu ymwelwch â'r wefan **www.direct.gov.uk**

Am ymholiadau ar faterion iechyd a diogelwch, cysyllter â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ar **0845 345 0055.**

Y rheolau ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol

- Os ydych yn 22 oed neu'n hŷn, rhaid i chi gael eich talu £5.80 yr awr man lleiaf. Hwn yw'r isafswm cyflog cenedlaethol.
- Mae pawb bron â'r hawl i dderbyn yr isafswm cyflog cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr dros-dro, rhan-amser a gweithwyr ysbeidiol, gweithwyr gartref, gweithwyr ar dasg, a phobl o wledydd eraill.
- O'r 1af o Hydref 2009, rhaid i unrhyw arian cildwrn a dderbyniwch fod yn ychwanegol, ar ben yr isafswm cyflog.
- Ni all eich cyflogwr ôl-dynnu arian o'ch cyflog am bethau megis offer, dillad amddiffynnol, neu wisg swyddogol os yw hynny'n gwneud eich tâl yn llai na'r isafswm cyflog cenedlaethol.

Gall union swm yr isafswm cyflog cenedlaethol newid bob blwyddyn, fis Hydref.

Gweithwyr ifanc

I weithwyr dan 22 oed yr isafswm tâl yw:

- £4.83 yr awr os ydynt rhwng 18 a 21 oed
- £3.57 yr awr os ydynt rhwng oedran gadael ysgol a dan 18 oed.

Rhai eithriadau

- Nid oes raid talu'r isafswm cyflog cenedlaethol i rai gweithwyr megis rhai prentisiaid a myfyrwyr ar leoliadau gwaith.
- Gall eich cyflogwr dynnu £31.57 yr wythnos allan o'ch cyflog ar gyfer llety. Gelwir hyn yn elfen 'gwrthbwyso llety'.
- Os ydych mewn unrhyw fath o waith amaethyddol, mae gwahanol gyfraddau o isafswm cyflog (gweler tudalen 6).

A ydych yn derbyn yr isafswm cyflog cenedlaethol?

Dylech fod yn derbyn slip cyflog sy'n dangos yr hyn a delir i chi. Dylai'r slip papur hwn hefyd ddangos faint a dynnir allan o'ch cyflog, megis treth incwm.

Efallai nad yw'n glir a ydych yn derbyn yr isafswm cyflog neu beidio. Nid yw rhai pethau megis treuliau yn cyfrif tuag at yr isafswm cyflog. Neu efallai na fyddwch yn derbyn tâl yn ôl yr awr.

I gael gwybod rhagor, ffoniwch y llinell gymorth yn ddi-dâl ar **0800 917 2368,** neu ymwelwch â **www.direct.gov.uk/payandworkrights**

Y rheolau ar oriau gwaith

- Nid oes raid i chi weithio mwy na 48 awr yr wythnos ar gyfartaledd.
- Mae hyn yr un fath i bawb bron sy'n gweithio yn y DU.
- Os ydych yn hŷn na 18 oed, gellwch ddewis gweithio rhagor o oriau os mynnwch – ond ni all eich cyflogwr eich gorfodi i wneud hynny. Rhaid i chi lofnodi cytundeb ysgrifenedig ynglŷn â hyn.

Cyfrif nifer yr oriau yr ydych yn gweithio

Mae rhywfaint o amser a dreuliwch ar ben eich oriau gwaith arferol yn cyfrif fel rhan o'ch 48 awr, megis:

- hyfforddi am y gwaith
- amser teithio os yw'n rhan o'r gwaith
- goramser am dâl.

Ni chewch gyfrif yr oriau canlynol fel rhan o'ch oriau gwaith:

- egwyl ginio
- teithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith
- goramser heb dâl a wnewch o'ch dewis chi.

Gweithwyr ifanc

Gall pobl ifanc (o oedran gadael ysgol hyd at 18 oed) ond gweithio hyd at wyth awr y dydd, a hyd at 40 awr yr wythnos.

Nid oes pob math o waith yn cael eu cynnwys

Mae rhai mathau o waith lle caniateir gweithio oriau hirach dan rai amgylchiadau. Ymhlith y rhain mae'r canlynol:

- peth gwaith yn y lluoedd arfog, yr heddlu, y gwasanaeth tân a'r gwasanaeth ambiwlans
- gweithio ar longau pysgota môr, neu longau masnach ar lynnoedd a dyfroedd mewndirol
- gweision a morynion mewn tai preifat.

I gael gwybod rhagor, ffoniwch y llinell gymorth yn ddi-dâl ar **0800 917 2368,** neu ymwelwch â **www.direct.gov.uk/payandworkrights**

Os ydych yn gweithio i asiantaeth

- Rhaid i'r asiantaeth eich talu am bob awr y gweithiwch.
- Rhaid iddynt beidio â gofyn am arian i ddod o hyd i waith i chi.
- Rhaid i'r asiantaeth ddweud wrthych yn ysgrifenedig faint y maent yn ei dalu i chi, eich telerau ac amodau, a'r math o waith y byddant yn ei gael i chi.
- Ni all yr asiantaeth ôl-dynnu swm o'ch tâl am bethau megis offer, dillad amddiffynnol, neu wisg swyddogol oni bai eu bod yn dweud wrthych a'ch bod yn cytuno i hynny.
- Gallant godi tâl am wasanaethau ychwanegol, ond ni allant wneud i chi ddefnyddio'r gwasanaethau hynny fel amod o ddod o hyd i waith i chi.

Mae gwahanol reolau ar gyfer asiantaethau adloniant neu fodelu. Cofiwch gadarnhau hyn gyda'r asiantaeth, neu cymrwch olwg ar **www.direct.gov.uk**

Mae'r Arolygiaeth Safonau Asiantaeth Gyflogi yn gwneud yn siŵr bod asiantaethau yn cadw at y gyfraith. Maent yn ymchwilio i gwynion yn erbyn asiantaethau cyflogi.

Hawliau cyflogaeth eraill

Mae hawl gennych hefyd i gael gwyliau gyda thâl, ac egwyl seibiant.

I gael gwybod rhagor, ffoniwch y llinell gymorth yn ddi-dâl ar **0800 917 2368,** neu ymwelwch â **www.direct.gov.uk/payandworkrights**

Os ydych yn gweithio yn y byd amaeth

Mae rhai rheolau arbennig ar gyfer pobl sy'n gweithio yn y byd amaeth.

Mae amaeth yn cynnwys ffermio da byw, unrhyw fath o gynhyrchu bwyd ar fferm, garddwriaeth, garddio masnachol neu waith planhigfa, pecynnu bwyd, a rheoli perllan neu goetir.

- Rhaid i chi gael eich talu o leiaf £5.81 yr awr.
- Mae hawl gennych dderbyn y tâl hwn, hyd yn oed os ydych yn gweithio'n rhan-amser, yn dymhorol, yn ysbeidiol neu ar dasg.
- Dylech gael eich talu yr un swm, fel arfer, os ydych yn sâl neu wedi cael niwed yn y gwaith.
- Os yw'ch cyflogwr yn rhoi cartref i chi, gall gymryd rhywfaint o arian am hyn. Ni all gymryd mwy na £31.57 yr wythnos.
- Gellwch ofyn am gael gweld eich cofnodion tâl, a rhaid i'ch cyflogwr eu dangos i chi. Yna gellwch sicrhau bod yr hyn a delir i chi yn gywir.

Os ydych yn gweithio i gangfeistr, edrychwch yn ogystal ar dudalen 7.

I gael gwybod rhagor, ffoniwch y llinell gymorth yn ddi-dâl ar **0800 917 2368,** neu ymwelwch â **www.direct.gov.uk/payandworkrights**

Os ydych yn gweithio i gangfeistr

Busnesau yw gangfeistri sy'n darparu gweithwyr ar gyfer rhai diwydiannau. Ymhlith y diwydiannau hyn mae amaeth, garddio masnachol, casglu pysgod cregyn, a phrosesu a phecynnu bwyd a diod.

- Mae'r un hawliau gennych i gyflog ac oriau gwaith â gweithwyr eraill.
- Rhaid i'ch cyflogwr beidio â'ch rhwystro rhag cymryd swydd arall, na mynd â'ch pasbort neu ddogfenni eraill oddi arnoch, na gwneud i chi dalu i adael eich swydd, na'ch bygwth mewn unrhyw fodd.
- Ni all eich cyflogwr ôl-dynnu arian o'ch cyflog am bethau megis offer, dillad amddiffynnol neu wisg swyddogol.
- Nid oes raid i chi aros mewn cartref y mae eich cyflogwr yn ei ddarparu. Os yw'ch cyflogwr yn darparu cartref i chi, rhaid i'r cartref hwnnw fod yn ddiogel.

Sefydlwyd yr Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri i amddiffyn pobl sy'n gweithio i gangfeistri. Gall atal gangfeistr rhag masnachu os nad yw'n trin gweithwyr yn deg.

Hawliau cyflogaeth eraill

Mae hawl gennych hefyd i bethau megis gwyliau gyda thâl, tâl salwch a hyfforddiant.

Os ydych yn gweithio i asiantaeth, edrychwch hefyd ar dudalen 5.

I gael gwybod rhagor, ffoniwch y llinell gymorth yn ddi-dâl ar **0800 917 2368,** neu ymwelwch â **www.direct.gov.uk/payandworkrights**

Sut mae cael gwybod rhagor

FREEPHONE

PAY & WORK RIGHTS HELPLINE
0800 917 2368
Direct.gov.uk/payandworkrights

Bydd galwadau o rai ffonau symudol yn ddi-dâl, a bydd eraill yn amrywio. Gofynnwch i'ch cwmni ffôn symudol am ragor o wybodaeth.

Ffoniwch y llinell gymorth:

- os ydych am ragor o gymorth neu gyngor
- os credwch nad ydych yn derbyn y tâl cywir, neu os yw'r rheolau ynglŷn â'ch hawliau tâl a gwaith wedi'u torri
- os ydych am ganfod a ydych yn derbyn yr isafswm cyflog cenedlaethol neu beidio.

Mae'r galwadau i'r llinell gymorth yn ddi-dâl ac yn gyfrinachol. Gellwch gael cymorth a chyngor mewn mwy na 100 o ieithoedd. Os ydych am wneud cwyn, nid oes raid i chi ddweud pwy ydych.

Hefyd mae llawer o wybodaeth ddefnyddiol ar **www.direct.gov.uk/payandworkrights** neu efallai y bydd o fudd i chi gael gair â'ch cyflogwr.

Am hawliau cyflogaeth eraill sydd heb eu cynnwys yma, cymrwch air ag Acas am gyngor ar **08457 47 47 47,** neu ymwelwch â **www.direct.gov.uk**

Fel arall, gellwch ymweld â'ch swyddfa leol Cyngor ar Bopeth, ac i weld ble mae'r swyddfa agosaf atoch chi edrychwch yn eich llyfr ffôn neu ymwelwch â **www.citizensadvice.org.uk**

Printed in the UK on recycled paper containing a minimum of 75% post consumer waste.
Department for Business, Innovation and Skills. www.bis.gov.uk
First published September 2009. Crown Copyright. BIS/Pub 8912/09/09/NP. URN 09/1225W (Welsh)